

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEHEFIN 19, 2018

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Mehefin 19, 2018 am 7:30 o'r gloch.**

Presennol Cyngorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Barry Jones, Hugh A. Evans, Emlyn Roberts. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Meurig Ashton, Gerallt Griffith.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 15, 2018

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 15, 2018

Eitem 6. Eitem 5. Derbyniodd y Clerc llythyr oddi wrth yr aelodau oedd yn bresennol yn datgan eu dymuniad ddim i dderbyn y swm £150 oedd ar gael iddynt.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/5/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Neuadd Gymunedol Llanbedr ar ddydd Mercher, Mai 23 am 7.00yh. Bydd Dilwyn Owen Williams a Dyfrig Siencyn o Gyngor Gwynedd yn bresennol i drafod materion yn ymwneud a chydweithio rhwng Cyngorau Cymuned a Thref a Chyngor Gwynedd, ac yn benodol am drosglwyddo asedau a gwasanaethau.

Amgáu mae Agenda y Cyfarfod Blynnyddol, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 2018, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gynhalwyd ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth 2018, a rhestr o gyrsiau bydd ar gael.

b. Llythyr (21/5/2018) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £500.

c. Llythyr (23/5/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith torri gwair yn cael ei wneud yn Brithdir ar 15.5/2018 a 25/7/2018, ac yn Llanfachreth ar 15/5/2018 a 25/7/2018. Bydd y gwaith yn cychwyn ar y Cefnffyrdd yna ymlaen i'r Ffyrdd Sirol.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEHEFIN 19, 2018

ch. Llythyr (25/5/2018) oddi wrth Pwyllgor Menter Egni Abergeirw yn rhoi gwybod cynhelir eu Cyfarfod Blynyddol ar 25/5/2018 yn Neuadd Rhydygorlan. Amgáu mae 'r agenda a chofnodion Cyfarfod Blynyddol 10/11/2017. Mae croeso i gynrychiolydd o'r Cyngor bod yn bresennol yn y cyfarfod.

d. Llythyr (26/5/2018) oddi wrth un o ysgrifenyddion Sioe Arddwriaethol ac Amaethol Rhydymain. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater ym mis Chwefror 2019 Cais am Nawdd.

dd. Llythyr (7/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o Reolau Sefydlog newydd 2018.

e. Llythyr (13/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod newid i Reolau Sefydlog: Para 21(a) Diogelu Data – Dylid newid y cyfeiriad at 'Bydd' i 'Gall' – Gall y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data.

f. Llythyr (14/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Gynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru ar Gorffennaf 4, 2018 ym Maes y Sioe Amaethyddol.

ff. Llythyr (1/6/2018) oddi wrth Meithrinfa Seren Fach, Brithdir. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater ym mis Chwefror 2019 Cais am Nawdd.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/54/317B. Ehangu ffin y safle a gosodiad safle diwygiedig ar gyfer rhan o ddatblygiad sydd wedi ei gadarnhau yn flaenorol o dan geisiadau 5/54/317 dyddiedig 02/04/2004 a NP5/54/317A dyddiedig 02/04/2009 er mwyn ail-leoli 6 tŷ annedd. Tir i'r De o Neuadd y Pentref, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (7/6/2018).

2. NP5/54/563. Adeiladu estyniad unllawr yn y cefn. Bryn Derwen, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (7/6/2018).

3. NP5/54/8A. Adeiladu estyniad blaen yn lle un presennol, ehangu cwrtil domestig ac adeiladu garej ddwbl gyda llety preswyl atodol ar y llawr cyntaf a teras i'r cefn. Gellfachreth, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEHEFIN 19, 2018

4. NP5/54/130C. Adeiladu adeilad amaethyddol. Garth Uchaf, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Materion Ariannol

- a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mai, 2018: £1,137.03.
- b. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2018: £5,399.82.
- c. Galwad ffôn (1/5/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol angen dogfennau'r Cyngor ar 6/5/2018.
- ch. Llythyr (14/6/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod bydd y dogfennau ar gael ar 20/6/2018.
- d. Llythyr (18/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda ffurflen ar gyfer taliadau a wneir i'r aelodau, taliadau fel defnyddio ffôn, cyfrifoldeb, teithio. Mae angen ei arddangos i'r cyhoedd cyn 30 Medi.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Roedd camddealltwriaeth gan Cyngor Gwynedd ynglŷn cywirdeb taci i gario plant o'r ardal i'r ysgol.

10. Unrhyw fater arall

- a. Mae un sedd wag yn Ward Brithdir ac un sedd wag yn Ward Machreth.
- b. Emlyn Roberts wedi cael galwad ffôn (17/5/2018) gan breswlydd yn byw fyny heibio Ysgol Aran Hall yn cwyno am y 'visibility' i gyfeiriad Dolgellau wrth ymuno a'r A494 ger tŷ Troedyrhiw. Bore 'ma bu bron iddo gael damwain wrth ymuno ar ffordd fawr. Mae'r broblem yn gyfuniad o lwyni llawn dail yn tyfu yng ngardd Troedyrhiw yn ymyl y wal a railings ar ei phen, a hefyd yn amal iawn mae faniau BT wedi parcio ger y gyfnewidfa ffôn gerllaw. Wrth ymuno ar ffordd gyda lori neu dractor mae cangennau y goeden sydd yn tyfu yn yr ardd yn dal yn broblem i weld, er bod y cangennau isaf wedi eu tocio. Mae angen cysylltu gyda yn y Cyngor Gwynedd, gan fod y preswlydd yn wirioneddol boeni y gall y diffyg gwelediad fod yn achos damwain a chysidro fod llawer o ddefnyddio ar y groesffordd dan sylw.

Rhodddwyd gwybod (18/5/2018) am y mater i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins rhoi gwybod i Swyddog Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, mae angen gweld perchenog Troedyrhiw i gael ei goed / llwyni eu tocio.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEHEFIN 19, 2018

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen llenwi tyllau sydd ar wyneb y ffordd sydd yng nghoedwigaeth Caerdefaid.

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd bod matras wedi ei dympio ar ochr ffordd A494 wrth Drwsynant ac mae angen ei gasglu.

Llofnod:

Dyddiad: